



Addoldai Cymru

Welsh Religious Buildings Trust

Newyddlen
Hydref
2018


Golygyddol

Yn ystod mis Medi, clywodd Ymddiriedolwyr a staff Addoldai Cymru y newyddion trist fod Richard Spencer Dean, ein Pensaer ar gyfer capel Hen Dŷ Cwrdd, wedi marw'n sydyn. Bu Richard yn angerddol o blaid capeli ac eglwysi Cymru, a bu'n gyfaill cefnogol dros gyfnod hir i Addoldai Cymru. Bydd colled mawr ar ei ôl.

Mae 2018 wedi bod yn flwyddyn brysur tu hwnt i ni, gyda gwaith atgyweirio sylweddol yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus ar dri o'n capeli. Mawr yw'n diolch a'n dyled i'n contractwyr, penseiri a'n staff cydwybodol. Mae gennym lawer mwy o waith ar y gweill ar gyfer 2019!

Ar Werth: Gardiau Nadolig
Gyda thymor y Nadolig yn agosáu, mae gennym nifer o Gardiau Nadolig ar werth. Gallwch ddod o hyd iddynt ar ein gwefan:
www.addoldaicymru.org

Diolch am eich cefnogaeth - mae'n cael ei gwerthfawrogi! Rydym yn croesawu cyfeillion a chefnogwyr lleol yn ein holl brosiectau amrywiol.



Capel Peniel, Tremadog

Golygfa o'r Awyr, Peniel, Tremadog

Fotograffiaeth o'r awyr gan ddefnyddio technoleg drôn, tynnwyd gan yr Original Roofing Company Ltd, i ddangos y gwaith atgyweirio diweddar a gyflawnwyd ganddynt ar do adeilad Gradd I Peniel, Tremadog, Gwynedd.


Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth grant am £110,000 gan y gronfa 'Mannau Addoli Rhestredig: Cronfa Trwsio Toeau' a weinyddir gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn ogystal â £21,435 gan gynllun TAW cronfa'r 'Mannau Addoli Rhestredig'. Penodwyd cwmni lleol o Flaenau Ffestiniog i gyflawni'r gwaith, sef The Original Roofing Company Ltd. Pensaer: Donald Insall Associates.

Erbyn hyn, mae cyfanswm o dros £1,500 wedi'i godi gan gyfraniadau cyhoeddus. Bydd beth bynnag a godir gan Apêl Pediment Peniel yn cynorthwyo Addoldai Cymru i geisio arian pellach gan ffynonellau eraill - a bydd hyn yn ein galluogi i orffen y gwaith ar y pediment. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu hyd yn hyn.

Mae'n bleser gennym hefyd groesawu'r grwp lleol 'Cefnogi Ffoaduriaid' sydd bellach wedi ymgartrefu yn Festri Peniel.



To a Nenfwd Newydd, **Beili Du**, Pentre-bach



Mae'r gwaith i osod to newydd ar adeilad Gradd II Beili Du ym Mhentre-bach, ger Pontsenni, Powys, bellach wedi'i gwblhau. Bu dirywiad sylweddol yn nghyflwr nenfwd y capel oherwydd diffygion y to, ac felly cawsom sêl bendith y cyllidwyr, sef cronfa'r 'Mannau Addoli Rhestredig: Cronfa Trwsio Toeau' a weinyddir gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, i osod nenfwd ais a phlastr newydd yn y capel yn lle'r nenfwd anghymwys o'r 1950au. Y contractwr oedd David A. Siggery Ltd. a'r pensaer oedd Alwyn Jones Penseiri Architects.

Astudiaeth Ddichonoldeb, **Beili Du**, Pentre-bach



Penodwyd y Griffiths Heritage Consultancy Ltd. i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar sut i ailddatblygu'n sensitif festri a stabl Beili Du.

Arwain, Cynllun Datblygu Gwledig Cyngor Powys sy'n gyfrifol am ariannu'r gwaith.



Lansiwyd cyfnod ymgynghori yn nhafarn y Shoemakers Arms ym Mhentre-bach ar Fedi'r 22ain 2018, a fydd yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn.

Arddangosfa, **Bethania**, Maesteg

Daeth Côr Meibion Maesteg a'r Cylch i ddiddanu'r ymwelwyr a ddaeth i'r arddangosfa ar 'Dreftadaeth y Bedyddwyr a Llestri Capel' a gynhaliwyd ym mis Medi 2018 ym Methania. Ariannwyd yr arddangosfa gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, Cymru.

Uwchraddiwyd y gosodiadau trydanol mewnol o ganlyniad i rodd a dderbyniwyd gan y 'Peter a Teresa Charitable Trust'.

Mae hyn wedi ein galluogi i ailgysylltu organ y capel, a wnaed gan J. G. Binns. Mae'n organ gwbl niwmatig sy'n cael ei chwythu gan fodur disgen mawr a wnaed gan gwmni Watkins and Watson. Mae Rodney Briscoe o gwmni W. Boggis and Sons o Swydd Norfolk wedi ymweld â'r capel yn ddiweddar i gynnal arolwg ar gyflwr yr organ, ac rydym bellach yn disgwyl ei adroddiad. Yn y cyfamser, mae Peter David o gapel Smyrna, Penyfaï wedi bod yn y capel yn canu'r organ - ac mae'n dda gennym ddweud er nad yw'n berffaith, o leiaf mae'n gweithio! Hoffwn fynegi ein diolch i'r ddau ohonynt am eu hymdrechion a'u hamser yn cynorthywo'r Ymddiriedolaeth gyda hyn.

Bydd gwsteion eraill yn ymuno â'r Côr ar gyfer cynnal ein Cyngerdd Carolau Nadolig cyntaf yn y capel ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni yno.



**Cyngerdd Carolau Nadolig
Christmas Carol Concert**

Capel Bethania Chapel
7.00pm

Rhagfyr 22ain | 22nd December

£5 yr un | each
Plant am ddim | Children free

Côr Meibion Maesteg a'r Cylch
Côr Merched Cwm Llynfi
Ysgol Gyfun Maesteg Comprehensive
School

Adroddiad a'r Undodwyr a'r Undodwyr, yr Undodwyr a'r Undodwyr. For more information and tickets, contact the Trust Office, 10/10A, 12990C, geoffroy@bethania.org.uk. (Ar line) On Line: www.bethania.org.uk www.undodwyr.org

Adroddiad Cymru

Ymgynghoriad, **Hen Dŷ Cwrdd**, Trecynon



Rydym yn parhau i weithio tuag at rddatblygu capel Hen Dŷ Cwrdd. Llogodd yr Ymddiriedolaeth stondin ym Marchnad Aberdâr am wythnos ac yn Amgueddfa Cwm Cynon am bedwar diwrnod i arddangos lluniau ac artiffactau a oedd yn perthyn i'r capel hanesyddol hwn. Cafodd dros 100 o'n holiaduron eu cwblhau yn ystod yr ymweliadau ymgynghorol hyn.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ddiolchgar hefyd am grant o £3,900 a dderbyniwyd gan Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd tuag at ailgysylltu cyflenwad trydan y capel.



Bydd yr Undodwyr lleol yn cynnal Gwasanaeth Nadolig yno ar Ragfyr yr ail am 11.00 y bore. Croeso cynnes i bawb,

Cyhoeddiadau Newydd:

Llywbr Ffydd Bedyddwyr Cymru: yn amlinellu hanes y Bedyddwyr yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Am ddim.



Anghydfurfaeth Gymreig:

Bywyd Capel y Gorffennol Mewn Lluniau. £5 yr un.



Rhowch Rodd os gwelwch yn dda

Mae haelioni ein cefnogwyr yn bwysig iawn i'n gwaith. Gellir defnyddio eich rhodd naill ai ar gyfer gwaith mewn adeilad penodol, neu ar gyfer ein gwaith yn gyffredinol. Mae sawl ffordd i roi.

Drwy wefan MyDonate: Ewch i www.btplc.com/mydonate a gosodwch ein henw neu ein rhif elusen **1084030** yn y blwch 'Donate to charity'.

Drwy eich banc: Gyrrwch siec, trefnwch archeb sefydlog, neu cyfrannwch yn uniongyrchol i'n cyfrif banc ni: **HSBC 40-16-02 31518097** (rhowch gyfeirnod er mwyn i ni nodi gan bwy mae'r rhodd)

Cymorth Rhodd

Os ydych yn talu treth incwm y DU, gallwn hawlio 25% yn ychwanegol ar ben eich rhodd gan Gyllid a Thollau EM, heb unrhyw gost i chi. Gofynnwch i ni am ffurflen.

Bod yn Gyfaill Addoldai Cymru

A wnewch chi ystyried ymuno â Chyfeillion Addoldai Cymru? Bydd eich tanystrigiad yn fodd i'r Ymddiriedolaeth dderbyn rhodd fechan ond hynod ddefnyddiol. Mae aelodaeth yn agored i bawb, ar gost o £10 y flwyddyn. Mae ffurflen aelodaeth a ffurflen archeb sefydlog banc ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth, neu cysylltwch â swyddfa'r Ymddiriedolaeth.

Mae mwy o wybodaeth a ffurflenni ar ein gwefan www.addoldaicymru.org a chwiliwch am y botwm Rhoddion.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn cymorth grant gan Cadw, adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, i gynnal rhan sylweddol o'i chostau beunyddiol. Cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth am ragor o wybodaeth. Byddwn yn falch o glywed gennych chi!

Ebost: post@addoldaicymru.org

YMDDIRIEDOLAETH ADDOLDAI CYMRU, CANOLFAN EGLWYS WESLEY, HEOL MAESTEG

TONDU, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF32 9BT

www.addoldaicymru.org

Elusen Gofrestredig 1084030

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant 3870343